

Bod yn warchodwr plant cofrestredig yn Sir Gaerfyrddin



**“Mae hi’n gwneud i mi deimlo’n hapus pan nad yw
mam yno.”** Rhian Jones, 2 oed





Os oes angen y wybodaeth hon arnoch ar ffurf print
bras neu dâp sain, ffoniwch 01267 234567



recycle
ailgylchu

Please recycle this publication
Cofiwch ailgylchu'r cyhoeddiad yma

100% recycled

This publication is printed
on 100% recycled paper

Pam bod yn warchodwr plant cofrestredig?

A ydych chi'n mwynhau gweithio gyda phlant?

A ydych chi eisiau bod yn rheolwr arnoch chi eich hun?

A ydych chi eisiau gweithio gartref?

Os ydych chi wedi ateb 'ydw' i'r cwestiynau uchod, mae'n bosibl y gallai gwarchod plant fod yn ddewis gwydych chi o ran gyrfa!

Mae gwarchod plant yn yrfa sy'n rhoi boddhad mawr i'r sawl sy'n mwynhau gweithio gyda phlant ac sy'n frwd dros roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant. Mae gwarchod plant yn yrfa ddelfrydol i bobl sydd eisiau swydd sy'n mynd law yn llaw gyda'u hymrwymiaid teuluol a gwneud gwahaniaeth go iawn i deuluoedd eraill drwy roi cyfle i rieni ddychwelyd i'r gwaith, hyfforddiant neu addysg.

Mae gwarchodwyr plant cofrestredig yn darparu amgylchedd cyfeillgar, diogel ac ysgogol ar gyfer plant, sy'n gymorth iddynt ddatblygu a thyfu. Er y bydd pob diwrnod yn wahanol i warchodwyr plant, gallai diwrnod arferol gynnwys:

- Mynd allan a'r plant i'r gymuned leol, i'r parc, cylch Meithrin, llyfrgell neu i gwrdd â Gwarchodwyr eraill neu fynd a chasglu plant o'r Ysgol.
- Darparu gweithgareddau dysgu creadigol, cyffrous ac ysgogol ar gyfer plant.
- Cefnogi dysgu plant drwy gynnwys egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru.

Fel gwarchodwr plant cofrestredig, byddwch yn:

- Ennyn parch rhieni ac yn bwysicach na hynny, y plant sy'n cael gofal gennych, a fydd gyda chi am flynyddoedd o bosibl.
- Gweithio gartref a dewis eich oriau gwaith eich hun a'r gwasanaethau rydych yn eu darparu.
- Gofalu am eich plant eich hun ar yr un pryd (os oes gennych chi eich plant eich hun)
- Ymuno gyda'ch cymuned leol
- Gosod eich ffoedd eich hun yr ydych wedi cytuno arnynt gyda rhieni.



Pam gwarchod plant?

Fel gwarchodwr plant cofrestredig, byddwch yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol mewn sawl ffordd. Bydd well gan rhai rhieni gael ei phlant wedi gwarchod mewn awryglch cartrefol.



Gall gwarchod plant ddatblygu'n yrfa hir oes ac sy'n rhoi boddhad mawr, sy'n datblygu eich sgiliau a'ch busnes eich hun ac sydd, ar yr un pryd, yn cefnogi plant a'u teuluoedd a gweithio fel rhan o'ch cymuned leol.

Mae gwarchodwyr plant yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddatblygiad ac addysg plentyn. Mae gwyllo plant rydych yn gofalu amdanynt yn dysgu neu'n cyflawni rhywbeth newydd am y tro cyntaf yn un o'r pethau mwyaf arbennig ynghylch bod yn warchodwr plant.

Bydd cyfleoedd a chysiau hyfforddiant ar gael i'ch helpu chi i ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau a chyfle i chi gyfarfod â gwarchodwyr plant eraill er mwyn ichi rannu syniadau a gwybodaeth.

Mae rhai gwarchodwyr plant yn arbenigo mewn maes penodol megis gofalu am blant anabl neu blant agored i niwed gan wneud cyfraniad gwirioneddol i'w bywydau a darparu cefnogaeth werthfawr ar gyfer teuluoedd a all ei chael yn anodd dod o hyd i ofal plant addas.

“Mae'r plant i gyd a'u rhieni yn rhan estynedig o'n teulu ni.”

Christine Pask, gwarchodwr plant cofrestredig, Sir Gaerfyrddin

Dod yn gofrestedig

Os ydych yn darparu gofal plant ar gyfer plant o dan 8 oed, am fwy na dwy awr y dydd ac am dâl, mae'n rhaid, yn ôl y gyfraith, ichi gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Cyn ichi allu cofrestru, bydd angen ichi gwblhau hyfforddiant Gofal Plant yn y cartref, cwblhau cais ar gyfer AGGCC, cwblhau polisiau a gweithdrefnau a dangos eich bod yn gallu cyrraedd y safonau a bennwyd.

Bydd pob cais yn cael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chynhelir arolwg o'r cartref er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn addas o ran gofalu am blant. Os ydych yn byw yn llety ar rent, yna fydd angen caniatâd wrth y Perchennog.

Bydd AGGCC yn pennu uchafswm o ran nifer y plant rydych yn cael gofalu amdanynt ar unrhyw adeg, hyd at uchafswm o chwe phlentyn o dan 8 oed ac fel arfer, does dim mwy na thri ohonynt i fod o dan oed ysgol.

Bydd y niferoedd hyn yn cynnwys eich plant eich hun os oes rhai gennych chi. Yn ogystal, bydd AGGCC yn eich arolygu er mwyn sicrhau eich bod yn parhau i gyrraedd y safonau a'r rheoliadau angenrheidiol.

Mae hyn yn dangos i rieni bod gwarchodwyr plant cofrestredig yn cynnig gofal diogel a phroffesiynol ar gyfer eu plant.



Mae Partneriaeth Plant Sir Gaerfyrddin yn darparu cymorth i'ch helpu er mwyn helpu pobl i ddechrau busnesau gwarchod plant.

Maent yn darparu arweiniad parhaus, cyngor un i un, cymorth a mentora, i'ch helpu gyda phroses cofrestru AGGCC, yn ogystal â darparu amrywiaeth eang o gyrsiau hyfforddiant a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i warchodwyr plant.

Efallai fydd gennych hawl i dderbyn grant cychwynnol sydd yn cynnwys:

- Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus am flwyddyn
- Hyfforddiant angenrheidiol
- Pecyn busnes i'ch helpu ddechrau eich busnes gofal plant



Cysylltiadau a ffynonellau gwybodaeth eraill

I gael rhagor o wybodaeth neu gymorth o ran bod yn warchodwr plant cofrestredig, cysylltwch â:

Swyddog Datblygu Gofalwyr Plant
Partneriaeth Plant Sir Gaerfyrddin
Rhif Ffôn: **01267 246555**
Gwefan: gwybplant@sirgar.gov.uk

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)
Corff cenedlaethol yw Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru sy'n gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwarchodwyr plant yng Nghymru.
Rhif Ffôn: **01443 848450**
Gwefan: www.cssiw.org.uk

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Gaerfyrddin
Bydd gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd wybodaeth ynghylch gofalwyr plant cofrestredig, nanis a meithrinfeydd yn yr ardal.
Rhif Ffôn: **01267 246555**
Gwefan: www.fis.carmarthenshire.gov.uk
Gwasanaeth Neges Destun y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd: -
Dechreuwch eich neges â "Plant" a'i anfon at **07786 202747**

